PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 2 CHWEFROR 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd K Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Driscoll, Gordon, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard, Keith Parry, Sattar a/ac Wong |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ed Stubbs.

2 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr fel gwir gofnod.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â'r Cod Ymarfer Aelodau:

| Cynghorydd | Eitem | Natur y Buddiant |
|---|---|---|
| Driscoll | 19/02648/MJR - Tir i'r gogledd o Heol Tŷ Draw, Pontprennau | Buddiant Rhagfarnus – wedi mynegi barn yn y gorffennol |
| Driscoll | 21/02671/MNR – Bwthyn Gofalwr Ysgol Gynradd Llandaf | Personol a Rhagfarnus – yn siarad fel Cynghorydd Ward sydd o blaid |
| Jones-Pritchard | 19/02648/MJR - Tir i'r gogledd o Heol Tŷ Draw, Pontprennau | Personol – Aelod o'r teulu yn gyfeillgar â phrotestiwr a enwyd |

4 : DEISEBAU

Derbyniwyd deisebau mewn perthynas â'r ceisiadau canlynol:

19/02648/MJR - Tir i'r gogledd o Heol Tŷ Draw, Pontprennau (x2):
O ran y ddeiseb gyntaf, siaradodd cynrychiolydd y deisebwr gyda'r asiant yn ymateb; ac o ran yr ail ddeiseb, siaradodd y deisebwr ac ymatebodd yr ymgeisydd.

21/01720/MJR, Hen Safle Brandon Tool Hire PLC, 151-153 Stryd Bute
Siaradodd y deisebwr ac ymatebodd yr asiant.

5 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhelliad a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y

penderfyniadau yn unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1980 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1980:

**CEISIADAU A GYMERADWYWYD:**

21/02671/MNR – LLANDAF
Tŷ Gofalwr Ysgol Gynradd Llandaf, 28 Hendre Close, Llandaf, Caerdydd, CF5 2HT

Amrywio amodau 2 a 4 i ddiwygio'r geiriad a'r oriau agor a dileu amod 8 sy'n ymwneud â mynediad i gerddwyr a beicwyr - 21/00497/MNR.

21/02702/DCH – CREIGIAU / SAIN FFAGAN
10 Yarrow Close, Sain Ffagan, Caerdydd, CF5 4QS

Estyniad unllawr ac estyniad to dormer yng nghefn yr eiddo.

**CEISIADAU A GYMERADWYWYD WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1991:**

19/02648/MJR – PONTPRENNAU / PENTREF LLANEIRWG
Tir i'r gogledd o Heol Tŷ Draw, Pontprennau, Caerdydd CF14 0PF

Datblygu 45 o unedau tai fforddiadwy gyda phriffyrdd a seilwaith draenio cysylltiedig. Mae'r datblygiad hefyd yn cynnwys dymchwel 43 Clos Nant Glaswg er mwyn creu llwybr troed/beicffordd.

Yn amodol ar ddiwygiad i'r amodau canlynol:

Diwygio amod 8 i ddarllen:
Er y cynlluniau a gymeradwywyd dan amod 1, cyn dechrau datblygu ar ben cwrs atal lleithder, bydd manylion sy'n dangos lleoedd parcio beiciau, gyda mynediad priodol iddynt, yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Caiff y manylion cymeradwy eu gweithredu cyn defnyddio'r datblygiad yn fuddiol. Ar ôl hynny, caiff y lleoedd parcio beiciau eu cynnal ac ni chânt eu defnyddio at unrhyw ddiben arall.

Diwygio amod 9 i ddarllen:
Bydd y lleoedd parcio ceir a gymeradwywyd drwy hyn, gan gynnwys y 5 pwynt gwefru cerbydau trydan i'w gweld ar y 'Cynllun Cynllunio' a gymeradwywyd drwy hyn (cyfeirnod llun 1686 100 Diwygiad AK), yn cael eu darparu cyn meddiannu'n fuddiol yr annedd y mae pob lle parcio a phwynt gwefru'n gysylltiedig â hi. Ar ôl hynny, caiff y lleoedd eu cynnal ac ni chânt eu defnyddio at unrhyw ddiben arall.

Diwygio amod 10 i ddarllen:
Cyn dechrau datblygu ar ben cwrs atal lleithder, bydd Cynllun Teithio yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd hyn yn cynnwys manylion y targedau o ran rhaniad moddol, cydlynydd y Cynllun Teithio, y mesurau trafnidiaeth gynaliadwy a'r gwaith monitro. Bydd y Cynllun Teithio yn cael ei weithredu yn unol â'r ddogfen a gymeradwywyd.

Diwygio amod 12 i ddarllen:

Bydd manylion y deunyddiau gorffen allanol ar waliau a thoeau'r holl anheddau yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn eu hadeiladu ar y safle. Bydd y gwaith datblygu'n mynd rhagddo yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Diwygio amod 15 i ddarllen:
Bydd y cyfleusterau storio sbwriel cymunedol sy'n gwasanaethu Plotiau 1-4, 26-29 a 38 a 39 a gymeradwywyd drwy hyn yn cael eu hadeiladu cyn defnyddio'n fuddiol yr annedd(au) y mae pob cyfleuster storio yn gysylltiedig â hi(nhw). Ar ôl hynny, caiff y cyfleuster storio sbwriel ei gynnal.

Diwygio amod 25 i ddarllen:
Bydd y nodweddion gwella bioamrywiaeth a gymeradwywyd drwy hyn ar y 'Cynllun Gwaith Allanol' (cyfeirnod llun: 1686 102 Diwygiad Q) yn cael eu gosod cyn meddiannu'r annedd berthnasol.

**Dylid nodi na chaniateir gwneud unrhyw benderfyniad oni dderbynnir awdurdodiad ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru yn unol â'r Cyfarwyddyd Atal dyddiedig 31 Mawrth 2021.**

21/01720/MJR – BUTETOWN
Hen Safle Brandon Hire PLC, 151-153 Stryd Bute, Butetown, Caerdydd

Cynnig i ddatblygu cynllun byw yn y gymuned i bobl hŷn â 45 o fflatiau, cyfleuster chwaraeon cymunedol a gwaith cysylltiedig.

Yn amodol ar ddiwygio Amod 2 fel a ganlyn:

20017-B-A-(00)_001 P10 Cynllun Lleoliad
20017-B-A-(00)_003 P15 Cynllun Safle Arfaethedig
20017-B-A-(00)_010 P14 Cynllun Llawr Gwaelod Arfaethedig
20017-B-A-(00)_011 P13 Cynllun Llawr Cyntaf Arfaethedig
20017-B-A-(00)_012 P13 Cynllun Ail Lawr Arfaethedig
20017-B-A-(00)_013 P13 Cynllun Trydydd Llawr Arfaethedig
20017-B-A-(00)_014 P13 Cynllun Pedwerydd Llawr Arfaethedig
20017-B-A-(00)_015 P13 Cynllun Pumed Llawr Arfaethedig
20017-B-A-(00)_016 P13 Cynllun To Arfaethedig
20017-B-A-(00)_210 P10 Gwedd Ddwyreiniol Arfaethedig
20017-B-A-(00)_211 P11 Gwedd Ogleddol Arfaethedig
20017-B-A-(00)_212 P10 Gwedd Orllewinol Arfaethedig
20017-B-A-(00)_213 P10 Gwedd Ddeheuol Arfaethedig

ac yn amodol ar ddiwygio Amod 20 fel a ganlyn:

O ran y Neuadd Chwaraeon Gymunedol, ni fydd unrhyw weithgareddau'n cael eu cynnal sy'n creu sŵn y gellir ei glywed ar ffin unrhyw lety preswyl y tu allan i'r oriau 08.30 a 21.30 ar unrhyw ddiwrnod.

6 : CEISIADAU A BENDERFYNWYD GAN BWERAU DIRPRWYEDIG - IONAWR 2022

Nodwyd

7 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys

8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 2 MAWRTH 2022

Daeth y cyfarfod i ben am 4.46 pm